| CWESTIWN | ATEB |
|---|---|
| Beth mae'n ei olygu pan mae fy Meddyg Teulu'n dod a'u cytundeb i ben? | Mae practisiau Meddygon Teulu'n gontractwyr annibynnol sy'n cael eu comisiynu gan y Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal drwy Gytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.<br><br>Gall Meddygon Teulu ddewis dod a'u cytundeb i ben gyda'r Bwrdd Iechyd. |
| Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud pan maent yn cael gwybod bod cytundeb yn cael ei therfynu? | Pan mae practis yn dod a'u cytundeb i ben, cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw gwneud yn siŵr bod gan yr holl gleifion fynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi'r dyddiad y mae'r cytundeb yn dod i ben.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn proses a elwir yn Broses Practis Gwag a bydd panel yn cwrdd i drafod yr opsiynau sydd ar gael.<br><br>Mae'r broses hon yn edrych mewn manylder ar nifer o opsiynau y gellid eu hystyried. Mae enghreifftiau'n cynnwys:<br><br>Hysbysebu'r practis, gyda'r nod o benodi partneriaeth Meddygon Teulu newydd i fod yn gyfrifol am y practis.<br><br>Cofrestru cleifion gyda phractisiau Meddygon Teulu lleol eraill. Bydd cleifion yn cael eu cofrestru gyda Meddyg Teulu arall sy'n agos i'w cartref.<br><br>Y Bwrdd Iechyd yn Rheoli'r practis - byddai'r Bwrdd Iechyd yn cymryd cyfrifoldeb dros y practis. |
| Sut yr ydych yn penderfynu beth fydd yn digwydd? | Mae yna Banel Practis Gwag, sydd â chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Meddygol Lleol a Chyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan arno.<br><br>Caiff nifer o ffactorau eu hystyried gan gynnwys maint y practis, safle presennol ac anghenion meddygol y boblogaeth leol. |
| Oes angen i mi wneud unrhyw beth ar ôl i mi gael | Na. **Does dim angen i chi wneud dim.** Byddwch yn parhau i dderbyn gofal gan eich |

| | |
|---|---|
| gwybod bod fy mhractis Meddyg Teulu’n dod a’u cytundeb i ben? | practis presennol nes i’r cytundeb ddod i ben.<br><br>Mae’n bwysig bod cleifion yn aros gyda’u practis presennol er mwyn i’r Bwrdd Iechyd allu gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eu cyfer pan ddaw’r cytundeb i ben.<br><br>Os oes nifer fawr o gleifion yn cofrestru gyda phractis arall cyn i’r Bwrdd Iechyd gadarnhau’r trefniadau, gallai hyn effeithio ar allu’r practis i ddarparu gofal yn ddiogel.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod i chi, yn ysgrifenedig, sut y gallwch gael mynediad at ofal ar ôl i’r cytundeb ddod i ben. |
| Beth os nad wyf eisiau aros gyda’r practis newydd neu gyda’r practis yr wyf wedi cael fy nghofrestru gydag o? | Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio gwneud yn siŵr eich bod yn cael dewis o ran y Practis Meddyg Teulu y byddwch yn cofrestru gyda. |
| Rwyf yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein – beth sydd angen i mi ei wneud? | Os ydych yn cael eich cofrestru gyda phractis newydd, nid oes modd symud eich cyfrif oherwydd bydd arnoch angen côd newydd ar gyfer eich practis newydd. Bydd staff y dderbynfa’n gallu eich helpu gyda hyn. |
| Beth sydd angen i mi ei wneud os wyf yn cael fy symud i bractis newydd? | Does dim angen i chi wneud dim – bydd eich cofnodion yn cael eu symud yn awtomatig a byddwch yn cael eich cofrestru gyda’r practis newydd. |
| Ai arian yw’r rheswm am hyn? | Na mae digon o arian i dalu am yr holl Feddygon Teulu sydd eu hangen ar gyfer y boblogaeth. Weithiau mae problemau sy’n ymwneud â’n gallu i ddenu Meddygon Teulu i weithio yn yr ardal. |
| Oes modd i mi wneud rhywbeth i helpu? | Y cyngor cyffredinol i unrhyw un sy’n ystyried gwneud apwyntiad i weld meddyg yn y practis yw i ystyried:<br><br>• Oes angen gweld doctor arnaf? Neu oes posib i mi weld aelod arall o’r tîm |

| | |
|---|---|
| | gofal iechyd (e.e. nyrs y practis, fferyllydd y practis ayyb)<br><br>• Oes modd i mi ymweld â’r fferyllfa yn hytrach na gweld meddyg?<br><br>• A oeddech chi’n gwybod am y Cynllun Anhwylderau Cyffredin Fferylliaeth Gymunedol<br><br>Mae’r gwasanaeth anhwylderau cyffredin fferylliaeth gymunedol yn gynllun sy’n galluogi cleifion i drafod gyda fferyllfa leol sy’n rhan o’r cynllun, yn hytrach na mynd at eu Meddyg Teulu. Mae rhestr benodol o anhwylderau cyffredin nad oes, o bosib, angen sylw nyrs neu feddyg. Bydd y fferyllydd yn rhoi meddyginiaeth o lyfr fformiwlâu sydd wedi ei gymeradwyo, rhoi cyngor neu ddweud wrth y claf am ymweld â’r Meddyg Teulu os oes angen. **Caiff meddyginiaethau eu rhoi am ddim.** |